

Swyddog Gweithredu Rhaglenni, Cymru

Lleoliad:	Caerdydd/Cymru (hybrid – adre a rhanbarthol, gyda ymweliadau i'r swyddfa yng Nghaerdydd yn ofynnol)
Adran:	Gweithredu Rhaglenni
Oriau:	35 awr yr wythnos
Cyflog:	£24,000 - £28,000
Yn adrodd i:	Rheolwr Gweithredu Rhaglenni, Cymru

Ynglŷn ag Into Film

Elusen addysg yw Into Film sy'n rhoi lle creiddiol i ffilm yn natblygiad addysgol, diwylliannol a phersonol plant a phobl ifanc.

Mae dros hanner ysgolion y Deyrnas Unedig yn ymwneud â'n rhaglen o glybiau ffilm, dangosiadau sinema arbennig, ac adnoddau a hyfforddiant i gynorthwyo'r addysgu yn yr ystafell ddosbarth. Ochr yn ochr â chynnwys cyfoethog ar-lein i gynulleidfaoedd ifanc, mae hyn yn darparu cyfleoedd llawn ysbrydoliaeth i blant a phobl ifanc 5-19 oed i ddysgu am ffilm a chyda ffilm a datblygu angerdd at sinema.

Crynodeb o'r Rôl

Gan adrodd i'r Rheolwr Gweithredu Rhaglenni a chydweithio'n agos â'r Cydlynnydd Gweithredu Rhaglenni a Swyddogion Gweithredu eraill, y tîm Dysgu, a gyda chydweithwyr ar draws Into Film, mae Swyddogion Gweithredu Rhaglenni'n chwarae rôl allweddol wrth gefnogi ysgolion i fanteisio ar wasanaeth Into Film, ac yn helpu'r sefydliad i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i addysgwyr, plant a phobl ifanc. Darperir cefnogaeth technegol gan ein tîm Cynnyrch a Thechnoleg.

Mae Swyddogion Rhaglenni yn gweithio'n agos â'r Cydlynnydd Gweithredu Rhaglenni dynodedig i ddatblygu a chysylltu i mewn i rwydwaith cenedlaethol cryf o sefydliadau gan gynnwys y BFI, FAN a chyrrff eraill ym maes y celfyddydau ac addysg er mwyn datblygu a darparu gweithdai a gweithgareddau a fydd yn ennyn diddordeb ysgolion yn ein gwaith.

Yn sgil natur y rôl, mae'n ofynnol gweithio ar benwythnosau ac oriau gweithio estynedig yn achlysurol, ynghyd â theithio o fewn Cymru a'r Deyrnas Unedig.

Prif Gyfrifoldebau:

- Cyfrannu at ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu sy'n benodol i'r wlad. Gweithio gyda Chydlynnydd Gweithredu Rhaglenni dynodedig i sicrhau bod sefydliadau cymwys (fel ysgolion) yn weithredol, yn gysylltiedig ac wedi'u hysgogi i fanteisio ar ein gwasanaeth (gan gynnwys Clybiau Into Film) a chefnogi drwy weithredu a monitro cynlluniau gwobrwyo ac ymgysylltu.
- Cefnogi'r rheiny sydd â chyfrif drwy ddarparu cyngor (nid technegol) drwy'r system ebost cardiff@
- Defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael drwy ein system CRM gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg drwy waith bob dydd y Swyddog Gweithredu Rhaglenni neu drwy law y tîm Cynnyrch a Thechnoleg neu Datblygu Busnes, i gefnogi gwaith y tîm, yn enwedig wrth wneud gwaith gwerthuso a pharatoi adroddiadau.
- Cefnogi'r tîm rhaglenni i gefnogi'r adran Farchnata a Chyfathrebu drwy ddefnyddio data a gwybodaeth er mwyn helpu gyda gwaith recriwtio – ar gyfer Gŵyl Ffilm Into Film, ac ar gyfer Gwobrau Into Film.
- Cyd-weithio a chefnogi'r Cydlynnydd(wyr) Gweithredu Rhaglenni i ddatblygu rhwydwaith o bartneriaid strategol, gan gynnwys arddangoswyr (sinemâu), sefydliadau ymbarel, rhwydwaith FAN, archif, a sefydliadau celfyddydol, er mwyn annog ysgolion i fod yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

- Lle bo'n briodol, cynrychioli Into Film yn broffesiynol neu gweithio gydag eraill i gynrychioli Into Film mewn cynadleddau, digwyddiadau a gwyliau, drwy ysgogi diddordeb partneriaid ac addysgwyr yn ein gwaith.
- Cefnogi'r Rheolwr Gweithredu Rhaglenni a'r Cydlynnydd(wyr) Gweithredu Rhaglenni i gyflawni gweithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau hyrwyddo yn debyg i weithdai, digwyddiadau ar-lein, a lle bo'n addas, wyneb yn wyneb.
- Cefnogi'r tîm Gweithredu Rhaglenni i weithio gyda'r tîm Marchnata a Chyfathrebu i gydlynnu gwaith cyfathrebu sy'n a ennyn diddordeb ein cynulleidfa yng Nghymru.
- Cefnogi'r tîm Gweithredu Rhaglenni i sicrhau fod gan y tîm Marchnata a Chyfathrebu yr hyn sydd ei angen arnyn nhw i ddatblygu cynnyrch a gweithgareddau Into Film ac ymateb i anghenion a gofynion ysgolion, gan gynnwys Clybiau Into Film.
- Cefnogi datblygiad ac hyrwyddo cynnyrch newydd Into Film, Into Film+ a chynnwys/cyrsiau/digwyddiadau ar ein platfform dysgu newydd, drwy ddarparu adborth a gwybodaeth, a sicrhau fod ysgolion yn ymwybodol o'r ddarpariaeth sydd ar gael.
- Casglu a darparu adroddiad misol/pob chwarter ar sail DPA (KPI).
- Dilyn y datblygiadau diweddaraf yn system addysg Cymru, Cwricwlwm i Gymru 2022 a'r datblygiadau a chyfleoedd yn sgil y Cwricwlwm.
- Ymgymryd â thasgau gweinyddol a rheoli swyddfa cyffredinol i helpu'r tîm a'r swyddfa i redeg yn llyfn, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i; archebu teithio, ymdrin ag archebion prynu ac anfonebau, a threfnu deunydd ysgrifennu.

Cyfrifoldebau Cyffredinol:

- Ymrwymiad i ansawdd yn fewnol ac yn ein holl ymwneud â'r cyhoedd, aelodau, athrawon, plant a phobl ifanc, partneriaid, cyllidwyr, cefnogwyr ac ati.
- Cyfrannu at gynllunio hirdymor i sicrhau twf yn unol â galw ac adnoddau.
- Cyfrannu at fonitro a gwerthuso gwaith Into Film yn rheolaidd.
- Ymrwymiad i gyfle cyfartal yn unol â Pholisi Cyfle Cyfartal Into Film.
- Unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill a gaiff eu nodi gan Into Film.

Manyleb y Person:

Hanfodol:

- Y gallu i gyfrannu a gweithio oddi-ar gynllun gweithredol.
- Dealltwriaeth dda o anghenion ysgolion a'r hyn fyddai o ddiddordeb iddyn nhw, a'r gallu i ddefnyddio'r wybodaeth yna i helpu'r tîm Gweithredu Rhaglenni i ymgysylltu'n effeithiol.
- Dealltwriaeth dda o ystyr gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol yn nhermau ymateb i ymholiadau nad sy'n rhai technegol a sut y mae delio ag ymholiadau cyffredinol.
- Profiad o ddehongli ac adrodd ar ddata a'i ddefnyddio i gyfarwyddo ymarfer parhaus a gweithgareddau'r rhaglen.
- Dealltwriaeth dda o'r BFI, rhwydwaith FAN a sefydliadau rhanbarthol eraill yn maes ffilm / y celfyddydau, a phartneriaid posib.
- Sgiliau cyfathrebu o'r radd flaenaf (ar lafar ac yn ysgrifenedig) yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan gynnwys siarad yn gyhoeddus lle bod angen.
- Profiad o drefnu a chefnogi chyd-weithwyr i gynnal digwyddiadau
- Profiad o weithio gyda thimau ar draws sefydliad a dealltwriaeth o sut y mae blaenoriaethau a dynameg timau'n amrywio a sut i weithio yn y cyd-destun hwn.

- Dealltwriaeth ragorol o system addysg Cymru a Chwricwlwm i Gymru 2022 a sut y mae athrawon yn gallu defnyddio ffilm i gwrdd ag amcanion dysgu ac addysgu.
- Sgiliau rheoli amser a phrosiect da, y gallu i flaenoriaethu amserlen waith brysur a'r gallu i weithio o bell yn ôl y gofyn
- Gwybodaeth weithio dda o systemau rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM), dadansoddi, metrigau a dealltwriaeth.
- Profiad o ddarparu cymorth gweinyddol i dîm bach.

Dymunol:

- Profiad o ddatblygu a gweithredu ymgyrchoedd e-bost.
- Yn gyfarwydd â Microsoft Office.
- Cariad at ffilm a gwybodaeth am ffilm.

Bydd gofyn i bob cyflogai sy'n gweithio'n rheolaidd gyda phlant dderbyn gwiriad manwl y DBS.

Bydd gofyn i bob cyflogai sy'n gweithio'n rheolaidd â data plant ac aelodau dderbyn a chynnal cliriad manwl y DBS (a/neu wiriad Access NI neu wiriad Disclosure Scotland, yn dibynnu ar leoliad gweithio), ar gost Into Film; mae cyflogaeth yn ddibynnol ar hyn.